**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2012**

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i ymateb i ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Cefndir

2 Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ym mis Hydref 2010. Roedd y Ddeddf yn dod yn lle dyletswyddau cydraddoldeb gwahanol yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, gender ac anabledd a oedd yn Neddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymestyn sylw'r Ddyletswydd i nodweddion gwarchodedig eraill, sef oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, ac ailbennu rhywedd.

3 Mae'r Ddeddf yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

4 Yn Ebrill 2011, defnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bwerau i gyflwyno Dyletswyddau Penodol, wedi eu cynllunio i gynorthwyo tryloywder ac i alluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol. Nodir y rhain o fewn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

5 Bydd cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth yn cael ei rheoleiddio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD). Rôl y Comisiwn dan y gyfraith newydd yw amddiffyn, gorfodi a hybu cydraddoldeb. Caiff y rôl hon ei chyflawni trwy ddarparu arweiniad, rheoleiddio a gweithgarwch gorfodi.

**Gwybodaeth**

6 Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi ein hymrwymiad parhaus i sicrhau parch a thegwch ar gyfer trigolion, aelodau etholedig, aelodau'r staff a'r holl ymwelwyr ag ardal Gogledd Cymru.

7 Mae'r Ddyletswydd Benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi amcanion cydraddoldeb sy'n gyson â'r rheoliadau, a hwnnw i'w gyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r 1af Ebrill 2012.

8 Mae'r rheoliadau'n cynnwys:

- darpariaethau ar gyfer ymgysylltu a chynnwys grwpiau nodweddion gwarchodedig
- sicrhau bod deunydd cyhoeddedig ar gael yn hawdd
- asesu effaith polisïau ac arferion
- hyfforddiant a choladu gwybodaeth am gyflogaeth
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf ymysg gweithwyr
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg mewn cyflogau
- adolygu cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb cysylltiedig
- darpariaethau arferion caffael.

9 Mae cynllun drafft y Gwasanaeth yn amlinellu'r amcanion cydraddoldeb allweddol a nodwyd gan ein rhanddeiliaid, ac mae wedi ei gynllunio i adeiladu ar lwyddiannau ein Cynlluniau

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth blaenorol, yn ogystal ag i gyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol newydd.

10 Hefyd, mae cynnwys yr amcanion cydraddoldeb wedi cael eu gwneud i fod yn gyson â:

- gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol y Sector Cyhoeddus, a Rheoliadau Penodol 2011 (Cymru)
- Amcanion Cynllun Cyfunol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i Leihau Risg a Gwella
- Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

11 Rhagwelir y bydd Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cael ei ddefnyddio fel offeryn asesu yn y dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r asesiad hwnnw, mae'r amcanion cydraddoldeb yn ymwneud â'r prif benawdau a ddefnyddiwyd yn y Fframwaith Gwella Cydraddoldeb.

12 Caiff y cynllun ei hysbysebu a'i hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y gwaith yr ydym yn ei wneud. Yn unol â'r gofynion cyfreithiol, bydd y cynllun, unwaith y bydd wedi ei gyhoeddi, yn cael ei adolygu heb fod yn hwyrach na phob pedair blynedd, er bod modd i'r Awdurdod adolygu, diwygio neu ail-wneud unrhyw amcan unrhyw bryd. Bydd ein gweithgarwch yn cael ei fonitro er mwyn asesu'r effaith y mae'r cynnydd a wnawn yn ei gael ar y cyhoedd a'n gweithwyr, a bydd yn cael ei adrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod.

## Argymhellion

13 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.